

2018 Rhif (Cy.)

2018 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cilfan Eglwys y Santes Fair,
Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys
Môn) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2018

The A5 Trunk Road (St Mary's
Church Lay-by, Mona Road, Menai
Bridge, Anglesey) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2018

Gwnaed 24 Mai 2018

Made 24 May 2018

Yn dod i rym 1 Mehefin 2018

Coming into force 1 June 2018

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 London to Holyhead Trunk Road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cilfan Eglwys y Santes Fair, Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 1 Mehefin 2018.

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (St Mary's Church Lay-by, Mona Road, Menai Bridge, Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2018 and it comes into force on 1 June 2018.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

2.—(1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 06:00 o’r gloch ar 1 Mehefin 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn cyfan o gilfan Eglwys y Santes Fair ger cerbyttfordd tua’r de Cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi o’r enw Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys Môn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio ar y darn o’r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o’r gefnffordd.

Cymhwys

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

24 Mai 2018

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the entire length of the St Mary’s Church lay-by adjacent to the southbound carriageway of the A5 London to Holyhead Trunk Road known as Mona Road, Menai Bridge, Anglesey;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 06:00 hours on 1 June 2018 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

(2) Any reference in this Order to a numbered article is a reference to the article bearing that number in this Order.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive or cause or permit any vehicle, other than an exempted vehicle, to proceed on the length of the trunk road.

4. No person may, during the works period, ride or cause to be ridden, any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 12 months.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated the

24 May 2018

Richard Morgan
Head of Asset Management and Standards
Welsh Government

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (CILFAN
EGLWYS Y SANTES FAIR, FFORDD MONA,
PORTHAETHWY, YNYS MÔN) (GWAHARDD
CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS
DRO) 2018**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A5, neu gerllaw iddi, yn Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beicwyr a cherddwyr rhag defnyddio'r darn cyfan o gilfan Eglwys y Santes Fair ger cerbyttffordd tua'r de yr A5 o'r enw Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys Môn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, mewn grym rhwng 06:00 o'r gloch a 18:00 o'r gloch ar 1 Mehefin 2018 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Dros Dro/ 2018).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (ST MARY'S CHURCH
LAY-BY, MONA ROAD, MENAI BRIDGE,
ANGLESEY) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2018**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A5 trunk road at Mona Road, Menai Bridge, Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from using the entire length of the St Mary's Church lay-by situated adjacent to the southbound carriageway of the A5 known as Mona Road, Menai Bridge, Anglesey.

The temporary prohibitions, which will be signed accordingly, are expected to be in force from 06:00 – 18:00 hours on 1 June 2018 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Temporary Traffic Orders/ 2018).

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government